

yn 'Un o Fil' neu yn 'Un o Gant'.

Cafwyd cefnogaeth hael gan lawer, a gwerthfawrogwn hynny'n fawr iawn. Mae rhai wedi ymrwymo i gyfrannu yn fisol ers blwyddyn neu ddwy, ac eraill yn ymateb i'r Apêl Flynyddol. Os medrwyd gyfrannu unrhyw swm, neu os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am waith Efe, cysylltwch â'r Gweinidog. Mae sicciau i'w gwneud yn daladwy i 'Cynllun Efe'.

Ebeneser

Fel y nodwyd y ddau Sul diwethaf, mae angen rhywun neu rywrai i agor y capel ar fore Sul o ddechrau mis Mawrth ymlaen.

Rhowch wybod i un o'r swyddogion neu i'r Gweinidog os gwelwch yn dda os ydych yn fodlon helpu. Yn ôl y patrwm presennol mae angen rhywun neu rywrai i agor y capel ar ddau fore Sul o bob mis, sef y Sul cyntaf a'r trydydd Sul o'r mis.

Cyhoeddiadau

GOFALAETH

Dydd Mawrth, Chwefror 23: Cyfarfod Henaduriaeth Arfon yng Nghaeathro am 1.30 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Chwefror 28: Gwasanaethir am 4.00 o'r gloch, gan y Parchg W R Williams, Y Felineli.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 28

4.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Mawrth 6

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Mawrth 13

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Sul, Chwefror 28: Cynhelir yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 28: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Chwefror 28: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Chwefror 22: Y Te Bach am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 26: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 28: Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yn lle'r Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Mawrth, Chwefror 23: Cynhelir Cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr yng nghapel Caeathro ar ôl yr Henaduriaeth, tua 3.30 o'r gloch.

Dydd Gwener, Chwefror 26: Cyfarfod Gweddi yn Cartref, Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mawrth 6

10.00 a.m. - Parchg Harri Parri

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 13

10.00 a.m.—Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m.—Oedfa MOLI

Mawrth 20 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. —Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 27 (Sul Pasg)

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 671: Dydd Sul, 21 Chwefror, 2016

Diogelu enw

Mi fum yn aros yno am ychydig ddyddiau pan oeddwn dal yn yr ysgol fach. Yn fwy diweddar o lawer, mi fum yno mewn dosbarth cyfrifiaduron. Ers hynny, mae'r lle wedi ei werthu fwy nag unwaith, ac mae ar werth eto ar hyn o bryd. Am eiliad neu ddau, mi feddyliais fod 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' wedi arallgyfeirio i faes gwerthu tai. Gweld logo'r arwerthwyr mor debyg i'r 'DC' a ddefnyddiai'r rhaglen deledu oeddwn i, cyn sylweddoli nad 'Dechrau Canu' ond David Currie & Co. o Fanceinion sy'n gwerthu.

Mae rhannau o'r tŷ wedi eu hadfer. Wn i ddim faint o newidiadau a wnaed i'r adeilad ei hun, ond fe gafwyd o leiaf ddau ymgais i newid ei enw. Cododd darpar brynwr, cwmni o Swydd Efrog, nyth cacwn y llynedd trwy farchnata'r lle dan yr enw 'Wynborn', ac er gwaetha'r holl stŵr a'r holl feirniadu a fu am hynny, mae'r arwerthwyr o Fanceinion wedi bod yn hysbysebu'r hen blas yn ddiweddar fel 'Newborough Hall'. Daeth y cwmni hwn yntau dan y lach am feiddio newid yr enw. Ac er ei fod bellach wedi adfer yr enw'n rhannol, mae angen perswad pellach arno i'w argyhoeddi mai 'Plas Glynllifon, nid 'Glynllifon Mansions', yw'r enw cywir.

Beth sydd tu cefn i'r ymdrechion hyn i newid yr enw? Digiwilydd-dra, ynteu anwybodaeth, ynteu dwpdra? Ac os yw hyd yn oed y gair 'plas' yn rhwystr i farchnata'r lle, a ddylem ddechrau sôn

am 'Buckingham Mansions' erbyn hyn, gan nad oes yn amlwg ddigon o steil na chrandrwydd i 'balas'. Does ond gobeithio y llwyddir i gael deddf a fydd yn atal pobl rhag newid yr hen enwau traddodiadol ar dai ac adeiladau eraill. Yn y cyfamser, beryg y cawn, gwaetha'r modd, sawl Wynborn a Newborough Hall arall.

Gallwn ddiolch fodd bynnag fod ein henwau ni'n fwy diogel o lawer trwy Grist. Dyma a ddywedir yn Llyfr y Datguddiad am bobl yr Iesu; 'Y sawl sy'n gorchfygu, gwisgir hwnnw yn yr un modd mewn gwisgoedd gwynion, ac ni thorraf byth ei enw allan o lyfr y bywyd' (3:5). Os ydym yn credu'r Efyngyl, ac os ydym trwy ras yn glynu wrth Iesu Grist, y mae ein henwau'n ddiogel yn llyfr Duw ei hun. Ni chant eu torri allan, ac ni fydd neb yn llwyddo i'w dileu.

Trwy drugaredd Duw ei hun, y mae ein henwau'n ddiogel yn llyfr y bywyd. Er gwaethaf pob ymdrech i'w dileu, maent yno, ac yno yr arhosant. Ond pwy sydd am eu dileu? Pwy sydd am eu torri allan o'r llyfr? Y gelyn Satan; gwrthwynebydd Duw; yr Un sydd am rwystro pawb rhag dod yn ddiogel i deulu a theyrnas Duw. Ond er ei holl ddichell a'i holl demtasiynau, mae pawb ohonom sy'n credu yn Iesu Grist yn ddiogel. Ac fe fyddwn ddiogel am fod ein henwau wedi eu gosod yn y llyfr, nid gennym ni ein hunain na chan neb dynol arall, ond gan y Duw Mawr ei hunan.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Ond oherwydd dy gariad mawr, dof fi i'th dŷ, plygaf yn dy deml sanctaidd mewn parch i ti ... Ond bydded i bawb sy'n llochesu ynot ti lawenhau, a chanu mewn llawenydd yn wastad; bydd yn amddiffyn dros y rhai sy'n caru dy enw, fel y bydd iddynt orfoleddu ynot ti' (Salm 5:7 a 11).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon, ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy. Nid oes Ysgol Sul heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones, Hen Golwyn.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones, Bethel.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Diolch i bawb am eu gwasanaeth ym mhob un o'r eglwysi ystod y dydd.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cwrs Ieuenctid

Mae rhai o aelodau CIC Llanberis yn y Cwrs Ieuenctid yng Ngholeg y Bala ers dydd Gwener. Byddant yn dod adref ar ôl cinio heddiw.

Diolch i Andrew Settatree am fynd yno efo'r bobl ifanc unwaith eto..

Gobeithio bydd pawb wedi mwynhau eu hunain a chael budd o'r Cwrs.

Oedfa Gwyl Ddewi

Fore Sul, nesaf, Chwefror 28m yn lle'r Ysgol Sul arferol bydd oedfa Gwyl Ddewi yng Ngharmel Llanllechid am 10.30 o'r gloch.

Estynnir croeso cynnes i deuluoedd a rhieni'r Ysgol Sul a phawb i ymuno yn yr oedfa ac i fwynhau paned a chacen a sgwrs ar y diwedd.

Cymdeithas Deiniolen

Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Chwefror 22. Y gŵr gwâdd y tro hwn yw Mr Berwyn Owen, a theitl ei sgwrs fydd 'Fferyllydd Pils'.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhaliwyd Pwyllgor Yr Ofalaeth yn festri Carmel, Llanllechid nos Fercher diwethaf. Etholwyd Miss Marian Jones, Cefnywaun yn Llywydd a'r Dr Deri Tomos, Carmel yn Is-lywydd y Pwyllgor. Dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor gyfarfod ers marwolaeth Thomas John Roberts, a fu'n Llywydd y Pwyllgor er sawl blwyddyn. Cydymdeimlwyd â Mrs Eileen Roberts a'r teulu yn eu colled.

Trafod materion ariannol yr Ofalaeth oedd prif ddiben y pwyllgor, ond un peth arall a wnaed hefyd oedd penderfynu cynnal oedfa flynyddol i'r Ofalaeth, a bwriedir cynnal y gyntaf fis Mehefin eleni, yng nghapel Carmel, Llanllechid.

Dydd Gweddi Chwiorydd

Bydd merched Deiniolen yn cynnal oedfa flynyddol Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Ebeneser am 6.00 o'r gloch nos Wener, Mawrth 4.

Swper Cymdeithas Llanberis

Cynhelir Swper Blynnyddol Cymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth, Mawrth 8 yng Ngwesty'r Fictoria.

Trefnir y swper gan Eifion a Gwyneth Roberts, Swn y Gwynt. Mae bwydlen ar gael, a gofynnir i bawb ohonoch sydd am ddod i'r swper roi gwybod iddynt mor fuan â phosibl beth ydych eisiau i'w fwyta. Rhif ffôn Eifion a Gwyneth yw **870740**.

Cynllun Efe

Mae Cynllun Efe wedi cynnal Gweithiwr Ieuenctid Crsitnogol yn nalgylch papur bro *Eco'r Wyddfa* ers mis hydref 2008. Mae'r enw 'Efe', os cofiwch, yn egluro diben a dalgylch yr elusen, sef **E**ffengyl i **F**ro'r **E**co.

Caiff Apêl Ariannol Flynyddol Efe ei gwneud yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Daeth yn amser felly i gyflwyno'r Apêl unwaith eto.

Fel y gwyddoch o bosibl o'r cyfeiriadau a wnaed yn Gronyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym yn cydweithio erbyn hyn â Trobwynt, elusen debyg i ni yn Llŷn ac Eifionydd, a byddwn yn rhannu amser ein swyddog ieuenctid, Andrew Settatree, â Trobwynt am dair blynedd.

Bydd Trobwynt yn cyfrannu hanner y gost o gynnal y swydd dros y cyfnod hwnnw. Mae hynny'n help mawr i Gynllun Efe, wrth reswm. Ond nid yw'n golygu nad oes angen i ni ddal i wneud ymdrech i godi arian i gynnal y gwaith.

Gan fod Efe erbyn hyn yn derbyn llai o lawer o arian oddi wrth yr enwadau nag a gafwyd yn ystod blynnyddoedd cyntaf y gwaith yr ydym yn dibynnu fwy a mwy ar gyfraniadau unigolion ac eglwysi lleol er mwyn cynnal y genhadaeth hon.

Gofynnwn eto, felly, i unrhyw un sy'n gallu gwneud hynny i ystyried cefnogi'r gwaith yn ariannol er mwyn sicrhau fod gennym ddigon o arian i gynnal y swydd dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r cynllun '**Un o Fil**' ac '**Un o Gant**' yn parhau gennym fel ffyrdd posibl o gefnogi'r gwaith. Mae '**Un o Fil**' yn anelu at gael 1,000 o bobl i gyfrannu £20 y flwyddyn; a'r cynllun '**Un o Gant**' yn anelu at gael 100 o bobl i gyfrannu £100. Gwahoddwn aelodau'r eglwysi lleol i fod